COFNODION CYFARFOD O GYNGOR CYMUNED LLANENGAN a gynhaliwyd nos Fercher, Chwefror 8fed, 2017 am saith o'r gloch

PRESENNOL

John Gwilym Jones (Cadeirydd), Alun Jones (Is-gadeirydd), John E. Griffiths, Wyn Griffiths, Gwilym Hughes, Robert M. Jones, Dylan Llwyd, Catherine Ll. Morris, Erfyl W. Roberts, O. Hefin Roberts, R. Phillip Roberts, Cyng. R.H. Wyn Williams (Cyngor Gwynedd)

YMDDIHEURIADAU

Thelma Cordingley, William B. Williams

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

1. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Nid oedd gan neb fuddiant personol.

2. **CADARNHAU COFNODION**

Cynigiwyd ac eiliwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Ionawr 11eg, 2017 yn gywir.

3. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

Trafodwyd y ceisiadau a ganlyn:

C17/0033/39/LL	Cais newid defnydd ar gyfer ail-leoli pedair carafán wyliau ar ardal 'Y' y maes (dim cynnydd mewn niferoedd), ynghyd â thirlunio a gwelliannau amgylcheddol – The Warren, Aber-soch **– Cefnogir**
C17/0096/39/LL	Estyniad deulawr ochr – 1 Bryn Llawen, Llanengan **– Gofynnir a fyddai modd cael mwy o wybodaeth am y cais cyn cyflwyno sylwadau, h.y. ni dderbyniwyd Datganiad Dylunio a Mynediad ac ni nodir mesuriadau**

4. **MATERION YN CODI**

a) **Toiledau Cyhoeddus Tyddyn Callod, Aber-soch**
Ni lwyddwyd cysylltu â chyfreithiwr y Cyngor parthed drysau'r toiledau.

b) **Glanhau Afon Soch**

Cysylltwyd â Linda Jones Mapping (Zip Print gynt) i'w holi a ellid mesur tir o fap/gynllun a thrwy gymorth cydweithiwr iddi llwyddwyd cael mesuriadau tir y Cyngor am gost o £10.00 – buasai mesur manylach yn costio llawer mwy. O ganlyniad, anfonir hwy at y contractwr er mwyn i'r Cyngor dalu ei ddyled am lanhau'r afon. Anfonir copi o lythyr un o'r tirfeddianwyr eraill sy'n ddyledwr hefyd.

c) **Archwiliad Cyfrifon 2015 – 2016 Cwmni BDO**

Derbyniwyd anfoneb (£397.50) am yr uchod oddi wrth Swyddfa Archwilio Cymru – gweler 11. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod.

ch) **Graddfeydd Cyflogau Clercod 2016 – 2018**

Deil trafodaethau rhwng y Cadeirydd a Swyddog ULlC i benderfynu union bwynt cyflog y Clerc o fewn y raddfa.

d) **Henry Jones (Cricieth) Ltd. – Mynwent y Bwlch**

Anfonwyd copi o adolygiad Rheolau'r Fynwent at aelodau'r Is-bwyllgor cyn cyfarfod heno ac roeddent yn hapus â'r newidiadau. Fe'u cyflwynwyd i'r Cyngor llawn –
fe'u derbyniwyd a'u mabwysiadu. Anfonir copi at yr uchod, yn unol â'i gais.

dd) **Cyng. Wyn Williams – Cae Chwarae Aber-soch**

i) ***Cae Pêl-droed***

Derbyniwyd mwy o wybodaeth am yr 'astroturf' – cae pump bob ochr â 'dug' bychan i reolwyr a.y.y.b. a goliau iawn; nid yw cynnal a chadw'n broblem gan fod hir oes iddo. Ychwanegodd EWR y bu'n gweld cae Nefyn ac, er ei bryderon cychwynnol, gwellodd y deunydd erbyn hyn. Gellir cael cae chwech bob ochr (20 x 40 metr) neu wyth (30 x 50 metr). Mae angen ysgubo'r cae'n achlysurol a chrybwyllwyd efallai y gellir rhannu tractor â Nefyn i wneud hyn.

ii) ***Parc Sglefrfyrddio***

Derbyniodd gais oddi wrth rieni a busnesau'r pentref i adnewyddu neu uwchraddio'r uchod a'i ariannu (£60,000 – £150,000). Penderfynwyd ei gefnogi mewn egwyddor ond, bod angen trafod perchnogaeth/cynnal a chadw – cysylltir â Phil Wood, Abersoch Watersports.

e) **Clorian Cymru – Teledu Cylch Cyfyng**

Ni chysylltodd Clorian Cymru â'r Clerc i roi manylion y costau ac ati. Deallwyd y bydd yr heddweision Andy Vowell a Dewi Jones yn ymddeol ym mis Mawrth – anfonir llythyr atynt bryd hynny.

f) **Asesiad Llesiant Lleol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn – Eich Ardal Chi – Beth sy'n Bwysig?**

Ni lwyddwyd ysgrifennu at Brif Weithredwyr y Bwrdd Iechyd a Chyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru i holi beth yw'r sefyllfa ddiweddaraf am Feddygfa Aber-soch ac ategu'r pryder.

5. **CYFRIFON**

a) ***Swyddfa Archwilio Cymru – Datganiad i'r Wasg: "Mae angen i gynghorau cymunedol wella rheolaeth ariannol a llywodraethu" a gwybodaeth am 'webinair' a gynhelir ar Chwefror 27ain***
Copi o'r uchod, er gwybodaeth, ynghyd â manylion am y 'webinair'.

b) ***Is-bwyllgor Ariannol***
Cyfarfu'r Is-bwyllgor neithiwr a derbyniwyd yr awgrymiadau a gynigiwyd – gweler cofnod 11. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod.

c) ***Hyfforddiant Cyllid Llywodraeth Leol – Estynedig***
Mynychodd y Clerc yr uchod a chafwyd budd o gyd-drafod â Chyd-glercod a chynghorwyr cynghorau eraill, yn arbennig archwiliad ariannol y llynedd.

6. **MATERION CYNLLUNIO**

a) **Mynedfa Newydd Castell, Lôn Pont Morgan, Aber-soch**
Ni dderbyniwyd cais cynllunio.

b) **Torri Coed yn Sandals, Lôn Pont Morgan, Aber-soch**
Derbyniwyd ateb i'r ymholiad am dorri'r coed uchod – nid oes Gorchymyn Diogelu Coed arnynt ac nid oeddent o fewn Ardal Cadwraeth Dynodedig.

[Ni chynhwyswyd y cofnod hwn yng nghofnodion mis Ionawr er ei fod yn eitem ar y rhaglen.]

7. **MATERION PRIFFYRDD**

a) **Materion Cynnal a Chadw yn y Gymuned**

i) ***Mainc Sarn Bach*** – Trosglwyddodd Antur Aelhaearn i Goleg Meirion Dwyfor Glynllifon ac er cysylltu i holi os gwneir meinciau o hyd, ni dderbyniwyd ateb.

ii) ***Coed ger Ysgubor Wen*** – ni dderbyniwyd ateb i'r ymholiad beth sy'n digwydd o ran eu tocio, gan na wnaed hyd yma.

b) **Rhybudd Cau Ffordd y B4415 gyferbyn â Ffatri, Nanhoron**
Cwblhawyd y gwaith erbyn hyn.

8. **MATERION HAWLIAU TRAMWY – LLWYBRAU CYHOEDDUS**

a) ***Ffens ger Isfryn, Mynytho***
Ni ymatebodd Huw Jones, Rhydyclafdy, i'r neges a adawyd iddo yn gofyn am bris i osod ffens newydd; ceisir cysylltu ag o eto.

b) ***Torri'r Llwybrau 2017***

Paratowyd hysbyseb ar gyfer yr uchod ond, deil yr angen am gadarnhâd o'r llwybrau gan Dewi Wyn Owen, Uwch Swyddog Hawliau Tramwy. Rhoddwyd dydd Gwener, Mawrth 3ydd yn ddyddiad cau i'r tendr.

9. **GOHEBIAETH**

a) **Un Llais Cymru (ULlC)**

i) ***Grantiau***

Gwybodaeth am grantiau sydd ar gael yn dilyn trafodaeth yn y Pwyllgor Ardal diwethaf.

ii) ***Gwybodaeth am Arloesi Gwynedd Wledig***

Copi, er gwybodaeth, o daflen am waith yr uchod yn dilyn cyflwyniad yn y Pwyllgor Ardal diwethaf.

iii) ***Diwygio Llywodraethu Ysgolion – Fframwaith Rheoleiddio***

Hysbysu'r ymgynghoriad uchod a ddaw i ben ar Chwefror 17eg; bwriedir tynnu cynrychiolaeth Cynghorau Cymuned/Tref oddi ar gyrff llywodraethu ysgolion.

iv) ***Bwletin Ionawr***

Argraffir unrhyw wybodaeth benodol.

v) ***Mae buddsoddiad mewn gwasanaethau trydydd sector yn cynyddu, ond nid yw awdurdodau lleol yng Nghymru yn gwneud y defnydd gorau o'r trydydd sector***

Datganiad i'r wasg gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

vi) ***Digwyddiad Rhanddeiliaid Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i Bobl dros 50 oed a hŷn***

Gwybodaeth am gyfarfodydd i ddatblygu Fframwaith Cyflenwi'r uchod.

vii) ***Papur Gwyn 'Diwygio Llywodraeth Leol: Cadernid ac Adnewyddiad'***

Ymgynghoriad a ddaw i ben ar Ebrill 11eg.

b) **Llywodraeth Cymru**

i) ***Arolwg Cynghorau Cymuned a Thref***

Arolwg i'r gwasanaethau a ddarperir a'r asedau a reolir gan gynghorau cymuned a thref; fe'i cynhelir rhwng Ionawr 23ain a Mawrth 30ain.

ii) ***Ymgyrch Recriwtio Ynadon yng Ngogledd Cymru 2017 – 2018***

Hysbyseb cyfarfodydd yr uchod – cynhaliwyd un yng Nghaernarfon ar Ionawr 24ain tridiau cyn derbyn yr ohebiaeth...!

c) **Gwasanaeth Democrataidd – Holiadur Cynghorau Cymuned**

Cynhalia Pwyllgor Craffu Cymunedau Cyngor Gwynedd ymchwiliad craffu i drefniadau mewnol yr Adran Gynllunio – holiadur i'w ddychwelyd cyn diwedd mis Chwefror.

ch) ***The Pensions Regulator*** **– Mae'n Amser Dewis Cynllun Pensiwn Cofrestru Awtomatig**

Yr wybodaeth ddiweddaraf ar y drefn dewis – angen dewis a sefydlu cynllun pensiwn cyn Mai 1af fel ei fod yn weithredol erbyn Awst 1af.

d) **Grŵp Cynefin – Cartrefi Fforddiadwy Stád Cornwall, Mynytho**
Cynhaliwyd diwrnod agored llwyddiannus yr wythnos diwethaf.

dd) **Cyngor Cymuned Llanaelhaearn – Golau Stryd**
Llythyr yn gofyn am gefnogaeth i ymgyrch y Cyngor gael golau stryd ar gyffordd Trefor – fe'i cefnogir.

e) **Gwasanaeth Cynllunio**

i) ***Cyfnod Ymgynghori Ciosgs BT***
Angen sylwadau ar waredu ciosgs BT yn y gymuned – penderfynwyd gwaredu y tri, sef yr un ger Bodlondeb, Sarn Bach, a'r ddau ym Mynytho – un ger Swyddfa'r Post a'r llall ger Parciau yn ystod yr ymgynghoriad cyntaf; daw'r ail i ben ar Ebrill 18fed.

ii) ***Cofrestr Newidiadau Materion sy'n Codi – Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn (CDLlC)***

- Derbyniwyd copi o'r uchod, sef newidiadau o ganlyniad i sesiynau gwrandawiad o Archwiliad CDLlC – dyddiad cau'r ymgynghoriad yw Mawrth 9fed.
- Derbyniwyd copi o ymateb i gais am wybodaeth a dderbyniodd Cyng. Wyn Williams parthed yr uchod. Nodir:
  1. bod Llanengan yn glwstwr a bydd hawl ymestyn i gais am dŷ fforddiadwy. Dim ond ceisiadau am dai fforddiadwy yn unig ar leiniau rhwng dau adeilad wedi'u lliwio ar y map neu ger adeilad wedi'i liwio a dderbynia gefnogaeth. Ar ei ffurf Newidiadau Materion sy'n Codi ni chyfynga'r polisi bellach nifer i gyfanswm o ddau dŷ fforddiadwy i bob anheddle – gall y polisi ganiatáu mwy na dau yn Llanengan os yw'r safle yn iawn a thystiolaeth briodol i gefnogi'r cais
  2. y dynodwyd Aber-soch i gael 65 o dai yn ystod oes y Cynllun, ond tai lleol yn unig. Hyrwydda'r cyfuniad o Bolisi TAI 5 a Pholisi TAI 9 dai marchnad lleol a fforddiadwy angen lleol yn Aber-soch. Yn ôl Polisi TAI 9 os byddai datblygiad arfaethedig ar gyfer dau neu fwy o unedau tai, disgwylid iddo ildio 30% tai fforddiadwy angen lleol oni bai y dangosai dystiolaeth nad yw'n hyfyw gwneud hynny. Gweddill o'r tai ar y safle yn dai marchnad lleol. Y newid ydi y gostynga'r trothwy o dri i ddau ac y cynydda'r targed dangosol ar gyfer tai fforddiadwy ar safleoedd unigol o 25% i 30%.

10. **DYFARNIADAU CYNLLUNIO AC YMHOLIADAU CYN CYFLWYNO CAIS**

C11/0087/39/LL Cynyddu nifer carafannau teithiol o 47 i 52 (pump ychwanegol), ymestyn rahn o'r safle er darparu man chwarae

plant a chadw 14 llawr caled, ynghyd â gwelliannau tirlunio – Beach View Caravan Park, Bwlchtocyn – **Archifiwyd Tachwedd 15fed, 2016. Derbyniwyd gohebiaeth yn egluro'r hyn a olyga 'archifo' – nid yr ymgeisydd yw perchennog y safle bellach ac, felly, ni weithreda arno eto**

C16/1226/39/LL Sefydlu safle carafannau teithiol i bymtheg carafán – Castellmarch, Aber-soch **– Caniatawyd ag amodau**

C16/1272/39/LL Ymestyn safle carafannau sefydlog er mwyn ail-leoli pedair uned a gosod pedair uned ychwanegol, gan gynyddu'r niferoedd o 32 i 36 – Fferm Tŷ Newydd, Sarn Bach – **Gwrthodwyd**

C16/1549/39/LL Dymchwel modurdy a chodi un newydd – Eagle House, Sarn Bach **– Caniatawyd ag amodau**

C16/1548/39/LL Adeiladu estyniad unllawr cefn â balconi uwchben llwyfan cefn, porth blaen â balconi uwchben a modurdy – Bryn Onnen, Lôn Engan, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**

C16/1568/39/LL Adnewyddu caniatâd C11/1185/39/LL i ddymchwel gweithdai presennol ac adeiladau dwy uned wyliau hunan gynhaliol – Iard Creigir Wen, Lôn Engan, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**

CAIS A DYNNWYD YN ÔL

C16/1390/39/TC Caist Tystysgrif Defnydd Cyfreithlon i ddefnyddio siale fel tŷ annedd – The Chalet, Bryn Awelon, Cilan

11. **CADARNHAU TALIADAU A DERBYNIADAU**

Taliadau

Cadarnhawyd talu cyflog mis Chwefror y Clerc (Rh/S 002036), ynghyd â'r taliadau a ganlyn:

a) Npower – £91.40 (D/U – Cyflenwad trydan Toiledau Lôn Traeth)
b) Swyddfa Archwilio Cymru – £397.50 (Rh/S 002035 – Archwiliad Ariannol 2015 – 2016)
c) Un Llais Cymru – £35.00 (Rh/S 002037 – Hyfforddiant)
ch) Einir Wyn (Clerc) – £10.00 (Rh/S 002038 – Ad-daliad Cost Mesur Glannau Afon Soch – Eiddo'r Cyngor)
d) Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen – £100.00 (Rh/S 002039 – Cyfraniad)
dd) Dawns i Bawb – £100.00 (Rh/S 002040 – Cyfraniad)
e) Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn – £100.00 (Rh/S 002041 – Cyfraniad)
f) Y Groes Goch – £50.00 (Rh/S 002042 – Cyfraniad)
ff) Sefydliad y Merched Aber-soch – £200.00 (Rh/S 002043 – Cyfraniad)
g) Cymorth Canser Macmillan – £100.00 (Rh/S 002044 – Cyfraniad)
ng) Cymdeithas Parêd Dewi Sant Pwllheli – £100.00 (Rh/S 002045 – Cyfraniad)
h) O Ddrws i Ddrws – £300.00 (Rh/S 002046 – Cyfraniad)

i) Theatr Bara Caws – £100.00 (Rh/S 002047 – Cyfraniad)

Derbyniadau

a) ScottishPower – £2.38 (Wayleave Cae Chwarae Aber-soch)

12. **DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF**

Nos Fercher, Mawrth 8fed, 2017 am saith o'r gloch